Y BARTNERIAETH AWYR AGORED
THE OUTDOOR PARTNERSHIP

Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve

## Mwy o ostyngiadau i aelodau'r Bartneriaeth Awyr Agored!



Wrth ddangos cerdyn aelodaeth y Bartneriaeth Awyr Agored gall aelodau erbyn hyn dderbyn gostyngiad ar bris mynediad yn wal ddringo Harlech. Mae Harlech wedi cytuno yn garedig i roi mynediad i'r aelodau am bris myfyrwyr, sydd ar hyn o bryd yn £5.

Am fwy o wybodaeth ac am amseroedd agor, cysylltwch â wal ddringo Harlechwww.harlechclimbingwall.com.

Mae'r cynnig yma yn ychwanegiad i nifer o gynigion a gostyngiadau eraill sydd ar gael i aelodau'r Bartneriaeth Awyr Agored. I weld beth sydd ar gael hyd yn hyn, ymwelwch â'n tudalen Gostyngiadau i Aelodau

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 15, 2014**

---

## Llwyddiant Gwobr Hyfforddwr Mynydda



Ym mis Medi eleni, fe lwyddodd Simon Jones (Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored Ynys Môn) i basio ei asesiad Gwobr Hyfforddwr Mynydda, dwy flynedd ers cwblhau ei gwrs hyfforddiant dwys ym Mhlas y Brenin.

Yn ystod y cyfnod gyfnerthu o ddwy flynedd magodd fwy o brofiad personol gan ddringo ar greigiau aml-ddringen gyda graddau o leiaf VS4c a gwahanol glogwyni anturus ar draws y Deyrnas Unedig. Bu Simon hefyd yn mentora rhai o'i ffrindiau a gwirfoddolwyr mewn dringo aml-ddringen, sgramblo a mordwyaeth.

Bu'r cwrs asesiad yn un dwys iawn dros gyfnod o 5 diwrnod gan gynnwys:

Dringo aml-ddringennau personol Achubyddion difyfyr a datrys problemau Sgramblo a diwrnod mynydda Dysgu eraill i...

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 12, 2014**

---

## Cyfle Gwych yn yr Alpau!

Cyfle Gwych Alpaidd

## Digwyddiadau

- Cyflwyniad i fordwyaeth arfordirol (Mentora)...
  Ionawr 5, 2015
- Gwobr Dringen Sengl (Mentora) Rf...
  Ionawr 14, 2015
- Mentora Gwobr Wal Ddringo (GWD)...
  Ionawr 16, 2015
- Cyflwyniad i fordwyaeth oddi ar...
  Ionawr 19, 2015
- Gwobrau Cerdded (Mentora Mordwyaeth nos...
  Ionawr 20, 2015
- Gwobrau Cerdded (Mentora ffug asesiad)...
  Chwefror 5, 2015
- Mentora Gwobr Wal Ddringo (GWD)...
  Chwefror 6, 2015
- Gwobrau Cerdded (Mentora Defnydd o...
  Chwefror 10, 2015
- De Gwynedd - Cystadleuaeth Bowldro...
  Chwefror 11, 2015
- Gogledd Gwynedd - Cystadleuaeth Bowldro...
  Chwefror 12, 2015
- Cyflwyniad i sgiliau mewn dŵr...
  Mawrth 4, 2015
- Ynys Môn - Cystadleuaeth Bowldro...
  Mawrth 4, 2015
- Gwobrau Cerdded (Mentora- Dysgu mordwyo)...
  Mawrth 6, 2015
- Cyflwyniad i sgiliau mewn dŵr...
  Mawrth 11, 2015
- Y Ffeinal - Cystadleuaeth Bowldro...
  Mawrth 11, 2015
- Cyflwyniad i sgiliau mewn dŵr

[Mwy ›]
Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 10, 2014**

## Mentora Mynydd i ddeg o bobl



Bydd cyfle i 10  unigolyn gael datblygu eu sgiliau mynydda a dringo dros gyfnod o 6 wythnos gyda'r cyfle i ennill cymwysterau cydnabyddedig yn yr awyr agored.

Cewch ddysgu'r sgiliau hanfodol megis mordwyo, fflora a ffawna, daeareg, gwaith rhaff a sgiliau dringo.

Cysylltwch ag Owain Williams, Cydlynydd y Prosiect ar 01690 720166 neu ymwelwch â www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau –Rhagfyr 17eg 2014

Dyddiad cychwyn – 12fed o Ionawr 2015

Lleoliad – Capel Curig, Conwy. LL24 0ET

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 10, 2014**

## Ceisiadau am Gyllid!

PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP

Mae cyfleoedd newydd i glybiau a phrosiectau lleol gael gafael ar gyllid drwy Bŵer Niwclear Horizon! Mae rhwng £500 a £2000 ar gael i'r ceisiadau sy'n ategu un neu fwy o'r themâu allweddol isod:

1. Addysg a Sgiliau – Hyrwyddo addysg megis prosiectau o fewn cwmpas y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn benodol prosiectau amgylcheddol a chyfoethogi ac atgyfnerthu ymrwymiad i ddatblygu sgiliau lleol gan dargedu pobl ifanc  a grwpiau anodd eu cyrraedd.

2. Amgylcheddol: Atgyfnerthu ymrwymiad Horizon tuag at gynefinoedd bywyd gwyllt, byw'n gynaliadwy ac/neu effeithlonrwydd ynni ac adnoddau.

3. Cymunedau: Mentrau sy'n cyfoethogi diwylliant, treftadaeth, iechyd a lles y cymunedau ble maent yn…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 10, 2014**

## DRYSAU I'R AWYR AGORED AR GYFER GRWPIAU SYDD HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL



Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn

Mawrth 18, 2015

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth. ›



chwilio am lythyrau o gefnogaeth gan bartneriaid, budd-ddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth sydd eisiau cefnogi'n cynllun 'Drysau i'r Awyr Agored ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol' (2015-18).

Bydd y Bartneriaeth Awyr Agored yn cyflwyno cais i Gronfa'r Loteri Fawr ym mis Ionawr 2015 i weithredu'r cynllun newydd. Rydym ni wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau ac adolygiadau gyda'n partneriaid allweddol a'n defnyddwyr gwasanaeth ond er hyn, bydd cefnogaeth ysgrifenedig o fudd mawr i'n prosiect arfaethedig.

Mae dau fwriad i'r cynllun newydd, sef sicrhau fod pobl ag anableddau yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau awyr agored, a...

Mwy ›

Ysgrifennwyd ar **Rhagfyr 1, 2014**

**Y Bartneriaeth Awyr Agored**, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, **Capel Curig** Conwy, LL24 0ET. Tel: 01690 720106

info@outdoorpartnership.co.uk
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk